
# Unlle i'w alw'n gartref: Deall ein hargyfwng tai. Byw mewn llety dros dro.

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

Medi 2024



SHELTER CYMRU

## Ynglŷn â Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan yw melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru. Rydym yn creu mewnwelediadau, syniadau ac achosi effeithiau sy'n helpu i roi diwedd ar dlodi ac anghydraddoldeb. Rydyn ni'n annibynnol, yn gyfoeth o wybodaeth, yn ysbrydoli ac yn gynhwysol ym mhopeth a wnawn.

## Tanysgrifio am fewnwelediadau ac effaith

Gweithiwch gyda melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru i greu Cymru sydd yn rhydd rhag tlodi ac anghyfiawnder. Gallai tanysgrifiad i Sefydliad Bevan eich helpu i:

### > Gwireddu'ch cenhadaeth

Cewch fynediad at arbenigedd a'r ymchwil ddiweddaraf ar faterion allweddol sy'n effeithio ar Gymru, gan helpu'ch sefydliad i gynllunio a chyflawni blaenoriaethau strategol.

### > Cryfhau eich enw da

Alinio'ch sefydliad ag elusen annibynnol sy'n cyflawni newid go iawn.

### > Adeiladu rhwydwaith

Manteisiwch ar hwb o arbenigwyr, llunwyr polisi ac arweinwyr meddwl i gydweithio'n well, meithrin partneriaethau, a rhannu gwybodaeth gwerthfawr.

**Archwiliwch ein dewisiadau tanysgrifio yn www.bevanfoundation.org/join-us/subscribe neu anfonwch e-bost atom ar info@bevanfoundation.org**

## Sut y gallwch chi helpu

Mae cannoedd o bobl a sefydliadau ledled Cymru yn galluogi Sefydliad Bevan i godi llais yn erbyn tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Ni fyddem yn bodoli heb eu cefnogaeth.

Er mwyn gwneud Cymru yn genedl o ffyniant i bawb, lle gall pawb gyflawni eu potensial, waeth pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw, ymunwch â'n cymuned o gefnogwyr. Gall eich cefnogaeth chi ac eraill wneud gwahaniaeth i ni a gwahaniaeth i Gymru.

Cewch rhagor o wybodaeth ar https://www.bevanfoundation.org/support-us/individuals/

neu e-bostiwch info@bevanfoundation.org

ZERO RACISM WALES

Living Wage Foundation

Prospect 20TH ANNUAL Think Tank Awards WINNER

SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

**Sefydliad Bevan**

145a Stryd Fawr Merthyr Tudful CF47 8DP

Twitter @bevanfoundation
Facebook.com/bevanfoundation
LinkedIn Bevan Foundation

Tel: +44 (0)1685 350 938
info@bevanfoundation.org
www.bevanfoundation.org

Elusen gofrestredig ydy Sefydliad Bevan rhif 1104191. Cwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru rhif 4175018.

# Ynglŷn â'r awdur

Mae Wendy Dearden yn Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil gyda'r Sefydliad Bevan

# Cydnabyddiaethau

Cafodd yr ymchwil yma ei wneud mewn partneriaeth gyda Shelter Cymru, elusen digartref cenedlaethol Cymru.

Mae Shelter Cymru yn helpi miloedd o bobl pob blwyddyn ar draws y genedl sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng tai drwy gynnig cyngor cyfrinachol, annibynnol am ddim.

Mae nhw hefyd yn ymgyrchi i amddiffyn yr hawl i gartref diogel ac yn ymladd yn erbyn effaith ofnadwy y mae'r argyfwng tai yn eu gael ar bobl ac ar gymdeithas.

Hoffwn ddiolch i'r tîm ymroddedig o Ymchwilwyr Cymheiriaid yn Shelter Cymru a gefnogodd yr ymchwil yma gan arwain ar y gwaith o gasglu data o waith achos a cleientiaid Shelter Cymru: Jasmine Adler, Mark Eaton-Lees, Katey-Jo Pilling and Tina Williams.

Cafodd yr ymchwil yma ei gefnogi yn garedig gan y Lloyds Bank Foundation

### Delwedd clawr
Llun stoc o Istock

### Llawrlwytho
Mae'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho fel PDF am ddim yn:
https://www.bevanfoundation.org

### Troednodyn
Os ydych chi'n defnyddio'r ddogfen hon yn eich gwaith eich hun, ein hoff ddyfyniad yw::
Dearden, W. (2024), Nowhere to call home: Understanding our housing crisis – Living in temporary accommodation, Bevan Foundation.
https://www.bevanfoundation.org/resources/living-in-ta/

### Caniatâd i rannu
Trwyddedir y gwaith hwn gan Creative Commons Attribution-Non-Commercial-No Derivatives 4.0 International. I weld copi o'r drwydded hon, ewch i https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/
Mae'r drwydded yn caniatáu lawrlwytho, ailddefnyddio, ailargraffu, dosbarthu neu gopïo gyda phriodoldeb a heb ei addasu, at ddefnydd anfasnachol.
Ar gyfer defnydd masnachol, cysylltwch â: info@bevanfoundation.org

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r argyfwng tai yng Nghymru yn parhau i wasgu'n galed, gyda'r niferoedd uchaf erioed o unedau teuluol mewn llety dros dro yn dystiolaeth glir o'r gost i feidrolion. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod un o bob 215 o deuluoedd yng Nghymru bellach yn byw mewn llety dros dro. Mae hyn yn cynnwys dros 3,000 o blant - bron i chwech o bob 1,000 o blant yng Nghymru. Mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn gwegian dan bwysau'r galw digynsail.

Er bod llety dros dro yn ddihangfa bwysig ar adeg o argyfwng, ni all fyth fod yn fan y gellir ei alw'n gartref. Rydyn ni'n aml yn gweld ac yn clywed am nifer y bobl sydd mewn llety dros dro, ond yn clywed llawer llai am yr effaith ar fywyd bob dydd y rhai sy'n byw yno.

Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni'n dwyn ynghyd ystadegau'r llywodraeth, barn awdurdodau lleol a chanfyddiadau ddaw waith achos gan Shelter Cymru i amlygu realiti byw yn y limbo hwn er mwyn rhoi darlun cyflawn o lety dros dro yng Nghymru heddiw. Ein bwriad ydy dangos pam fod angen tai mwy parhaol, fforddiadwy ac addas i alluogi pobl i symud ymlaen a dod allan o lety dros dro ac i mewn i gartref sefydlog, hirdymor.

## Pwy sy'n byw mewn llety dros dro?

Ym mis Mawrth 2024, roedd 6447 o unedau teuluol yn byw mewn llety dros dro – un o bob 215 o'r holl aelwydydd yng Nghymru. Yn y cartrefi hynny roedd 3,143 o blant – chwech o bob 1,000 o'r holl blant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'r cynnydd mwyaf ymhlith aelwydydd un person, sydd bellach yn cynnwys dwy ran o dair o leoliadau mewn llety dros dro.

Mae pedwar o bob deg aelwyd mewn llety dros dro yn cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast (B&B). Fe'i defnyddir yn arbennig ar gyfer cartrefu unigolion.

Y prif resymau pam fod pobl yn dod yn ddigartref ac yn gorfod mynd i lety dros dro ydy eu bod yn colli cartref ar rent neu'n methu â byw gyda theulu neu berthnasau eraill, ynghyd â thai anaddas neu anfforddiadwy. O ystyried bod y cynnig o lety dros dro yn dibynnu ar fod yna angen dybryd, sy'n cynnwys bod yn agored i niwed oherwydd salwch meddwl neu gorfforol, dydy hi ddim yn syndod bod gwaith achos Shelter Cymru yn dangos bod cyflwr gwael o iechyd meddwl yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol a bod y mwyafrif helaeth o bobl sy'n byw mewn llety dros dro gydag anghenion cymorth.

## Bywyd mewn llety dros dro

Mae'r llety dros dro ymhell o fod yn ddarlun o westy moethus. Mae awdurdodau lleol yn ei chael hi'n hynod anodd i ddod o hyd i lety addas a'i sicrhau ac yn aml dydy nhw ddim yn gallu cydymffurfio â'r canllawiau syn ymwneud â'i ddarparu.

Yn aml, dydy bywyd mewn llety dros dro ddim yn gyfnod "dros dro" – roedd pedwar o bob deg o bobl oedd yn byw mewn llety dros dro ar ddiwedd mis Mawrth 2024 wedi bod yno ers dros 6 mis a bron i un o bob pump wedi bod yno ers dros flwyddyn.

Mae safon yr adeiladau yn aml yn isel. Mae Shelter Cymru yn adrodd bod cleientiaid yn byw heb gyfleusterau coginio ac i gadw'n lân, yn gorfod rhannu ystafelloedd gwely, ac mewn mannau oedd yn llaith ac angen eu hatgyweirio. Gall hygyrchedd fod yn broblem i'r nifer fawr o deuluoedd sydd ag anghenion symudedd. Gall costau byw mewn llety dros

dro fod yn uchel, yn ogystal â dod â chostau annisgwyl megis storio eiddo. Gall prinder llety arwain at leoli pobl gryn bellter oddi wrth deulu, ysgolion a swyddi.

Gall byw mewn llety dros dro waethygu iechyd meddwl pobl. Mae cyfyngiadau ar ryddid i symud, pryderon am ddiogelwch personol ac ansicrwydd ynghylch ble a phryd bydd y symud nesaf yn digwydd, y rhain i gyd yn gallu effeithio ar lesiant pobl. Ychydig sydd yn wybyddus am effaith byw mewn llety dros dro ar y nifer cynyddol o blant a leolir yno.

## Symud ymlaen

Yn ystod 2023-24, dim ond 30 y cant o unedau teuluol gafodd eu symud yn llwyddiannus allan o lety dros dro ac i gartref hirdymor addas. Mae symud i gartref parhaol yn cael ei lesteirio gan brinder tai cymdeithasol a materion fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat. Mae lleiafrif sylweddol o deuluoedd (29%) yn gadael llety dros dro heb fod ganddyn nhw lety parhaol, naill ai'n wirfoddol neu oherwydd y gofynnir iddyn nhw adael.

Mae'n ymddangos bod yna 'ddrws tro' i mewn ac allan o lety dros dro, gydag un o bob pump o bobl oedd yn mynd i lety dros dro ym mis Mehefin 2024 wedi cael eu lleoli hefyd yn ystod y 12 mis blaenorol.

## Mynediad i dai cymdeithasol

Rhaid i welliannau mewn mynediad at dai cymdeithasol fod yn sail i'r newid sylweddol sydd ei angen i symud pobl allan o lety dros dro ac i gartref hirdymor. Mae cartrefi cymdeithasol yn darparu sicrwydd hirdymor, mae ganddyn nhw renti fforddiadwy a rheoledig, ac yn rhoi tawelwch meddwl ar gyfer y dyfodol.

Cael cartref cymdeithasol ydy'r dewis mwyaf poblogaidd gan bobl sydd mewn llety dros dro. Roedd gan lawer o bobl brofiad o rentu yn y sector preifat ac yn poeni na fyddai'r cynnig o denantiaeth yno'n darparu'r tai fforddiadwy dros dymor hwy yr oedd eu hangen arnyn nhw i allu bwrw ymlaen â'u bywydau. Soniodd rhai o brofiad bod eu tenantiaeth wedi ei derfynu gan y landlord trwy gael eu droi allan heb fai, neu fod y rhent wedi cynyddu i lefel anfforddiadwy.

## Casgliad a'r camau nesaf

Mae'n amlwg bod gormod o bobl yn byw mewn llety dros dro sy'n anaddas i'w hanghenion, a'u bod yn byw yno yn llawer rhy hir. Dydy rhoi niferoedd cynyddol o bobl mewn llety dros dro ddim ychwaith yn gynaliadwy i awdurdodau lleol.

Mae Sefydliad Bevan a Shelter Cymru yn ystyried mai'r ffordd orau o symud pobl ymlaen o lety dros dro ydy darparu mwy o gartrefi cymdeithasol fyddai ar gael i bobl sy'n byw mewn llety dros dro. Er hynny, mae'r bwriad i gynyddu creu tai cymdeithasol newydd wedi bod yn is na'r targed o 20,000 ac heb fod yn ddigonol i ddiwallu'r galw.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o brosiect ehangach sy'n ceisio gostwng niferoedd y rhai sydd mewn llety dros dro. Dros gyfnod o dair blynedd, byddwn yn edrych ar sut i gynyddu argaeledd llety i bobl allu symud ymlaen iddyn nhw, gan ystyried y cyflenwad tai, gwneud y defnydd gorau o'r stoc bresennol, y polisïau dyrannu, y system gynllunio a mynediad i dir. Ein nod yw datblygu llwybr taith ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan amlinellu'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddatrys argyfwng digartrefedd Cymru.